## ADOLYGIAD O LENYDDIAETH RYNGWLADOL

Cynnal adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol ynghylch Awtomatiaeth / Deallusrwydd Artiffisial a'r effaith ar swyddi a sgiliau ac ati, gan gynnwys tueddiadau allweddol a'r hyn sy'n ysgogi a gyrru newid.

## DYFODOL ADDYSG A SGILIAU

Cynnal adolygiad o'r mentrau polisi ar ddyfodol addysg a sgiliau yng nghyd-destun 'tarfu digidol' a'r hyn a elwir 'y pedwerydd chwyldro diwydiannol'.

## DIWYGIO POLISI DIWYDIANNOL

Adolygu mentrau ar gyfer diwygio polisi diwydiannol yng Nghymru gan gynnwys y prif syniadau a mentrau sydd wedi'u cynnig mewn adroddiadau diweddar ar lefel y Deyrnas Unedig ar yr economi ddigidol a goblygiadau deallusrwydd artiffisial / awtomatiaeth o ran diwydiannau cyfredol a diwydiannau newydd, a dyfodol gwaith yng Nghymru.

## DADANSODDI DATA A SECTORAU DIWYDIANNOL

Cydweithio â chwmnïau ym maes dadansoddi deallusrwydd artiffisial a manteisio ar eu technegau data i ddatblygu arloesi digidol yng Nghymru a chanolbwyntio ar feysydd o dwf yn y dyfodol o ran siapio economi Cymru a dyfodol gwaith.

# PAPURAU BRÎFFIO A GOMISIYNWYD GAN YR ADOLYGIAD ARLOESI DIGIDOL

## ECONOMI GIG PLATFFORM

Cynnal adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol ynghylch yr economi 'rhannu' 'platfform' a 'gig', yn ogystal â swyddi'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd o ran gweithgarwch economaidd a chynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru.

## DADANSODDI'R FARCHNAD LAFUR

Dadansoddi sut mae gofynion yn newid o ran sgiliau, beth yw dyfodol gwaith, a chraffu ar y farchnad lafur 'digidol' yng Nghymru, o gymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata marchnad swyddi 'amser real'.

## TROSOLWG O GYFLOGAETH YN ECONOMI CYMRU

Cynnal trosolwg ystadegol o gyflogaeth yn economi Cymru / economi'r Deyrnas Unedig a dyfodol gwaith yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar natur newidiol cyflogaeth yng Nghymru ynghyd â newidiadau i'r galw am sgiliau a'r cyflenwad ohonynt.

## ARFER GORAU RHYNGWLADOL

Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu i ddau faes: Dysgu Gydol Oes, Trawsnewid Diwydiant a Dyfodol Gwaith yn Singapore; a, Tystiolaeth gymharol gan ddefnyddio enghreifftiau o sawl gwlad, gan gynnwys Denmarc, Israel, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Unol Daleithiau.

Disgwylir i'r papurau briffio fod wedi gorffen eu gwaith erbyn diwedd mis Hydref 2018.
Am ragor o wybodaeth amdanynt, cysylltwch â AdolygiadArloesiDigidol@llyw.cymru.